Gofalu am eich cartref

CYFRIFOLDEBAU CYNNAL A CHADW TENANTIAID

BETH YDYCH CHI'N GYFRIFOL AMDANO?

Mae gan y Cyngor ddyletswydd i gadw eich cartref mewn cyflwr da. Mae hwn yn cynnwys atgyweiriadau i wasanaethau hanfodol megis eich system gwres, golau a phlymio. Rydych hefyd yn gyfrifol am adrodd atgyweiriadau i Dîm Trwsio Canolog y Cyngor, eich Swyddfa Tai lleol neu yn un o swyddfeydd Cwsmer yn Gyntaf y Cyngor. Os nad ydych yn siŵr am atgyweiriad byddant yn rhoi gwybod i chi pwy sy'n gyfrifol.

Mae'r atgyweiriadau a ddangosir isod, ac a ystyrir yn rhan o gynnal a chadw dyddiol eich cartref, yn cael eu hystyried fel eich cyfrifoldeb **CHI.** Nid oes angen caniatâd arnoch i wneud unrhyw atgyweiriadau, ond dylech ddilyn unrhyw arweiniad. Os nad ydych yn siŵr, cysylltwch â ni.

1 AMNEWID PLYGIAU A CHADWYNAU I'R BATH, BASN A SINC

2 AMNEWID Y FFIWS A'R PLYGIAU I'CH HOLL OFFER TRYDANOL

3 AMNEWID BYLBIAU GOLAU TRYDANOL TU FEWN I'CH CARTREF, ONI BAI AM RAI'R GEGIN, YSTAFELL YMOLCHI A GOLEUADAU DIOGELWCH TU ALLAN

4 DARPARU A FFITIO RHEILIAU LLENNI, RHEILIAU A BACHAU HET NEU GOT. Cymerwch ofal wrth ffitio unrhyw eitemau i'r waliau a'r nenfwd. Gwiriwch am arwyneb 'artex', plymio neu drydan. Os ydych yn ansicr cysylltwch â ni

5 YR HOLL ADDURNO MEWNOL, GAN GYNNWYS LLENWI MÂN GRACIAU Â PHLASTR - Gwiriwch os yw'n ddiogel i chi rhwbio'r arwynebau cyn ailaddurno. Os oes arwyneb 'artex' neu os ydych yn siŵr cysylltwch â ni

6 PLYMIO MEWN PEIRIANT GOLCHI DILLAD AWTOMATIG, PEIRIANT GOLCHI LLESTRI A SYSTEM AWYRU AR GYFER PEIRIANT SYCHU DILLAD

7 ESMWYTHO A THOCIO DRYSAU MEWNOL

8 COPÏAU O ALLWEDDU AR GYFER DRYSAU FFRYNT A CHEFN YR EIDDO

9 AMNEWID SEDD A CHLAWR Y TOILED

10 AMNEWID SYCHWYR TRO A LLINELLAU SYCHU DILLAD

11 ATGYWEIRIADAU I UNRHYW WELLIANNAU NEU NEWIDIADAU YR YDYCH YN GWNEUD YN EICH CARTREF. CAIFF SYSTEMAU GWRESOGI CANOLIG SYDD WEDI'U GOSOD GAN Y TENANT A'U CYMERADWYO GAN Y CYNGOR EU CYNNWYS YN Y CYTUNDEB CYNNAL A CHADW BLYNYDDOL

12 AMNEWID A GLANHAU PEN-CAWOD

13 POB AGWEDD O WAITH CYNNAL YR ARDD GAN GYNNWYS GWRYCHOEDD A CHOED AR Y FFIN

14 CADWCH Y PIBELLAU GWASTRAFF MEWNOL AC ALLANOL I GYD YN GLIR, GAN GYNNWYS SINCIAU, BASNAU DWYLO A CHAWODYDD A SICRHEWCH NAD YW'R TŶ BACH YN CAEL EI RWYSTRO. CADWCH GWTERI ALLANOL RHAG DAIL A DEUNYDDIAU ERAILL I ATAL RHWYSTRAU A LLIFOGYDD.

Ni fydd y gwaith uchod yn cael ei wneud gan dîm ymateb i faterion atgyweirio y Cyngor. Fodd bynnag, pan fo atgyweiriad ddim yn cael ei adrodd ac yn anfwriadol mae'r Cyngor yn gwneud gwaith o'r fath, ac mae'r rhain yn cael eu hail-dalu i chi.

Ni fydd y gwaith uchod yn cael eu gwneud gan Dîm Atgyweiriadau Ymatebol y Cyngor.

Fodd bynnag gall tenantiaid oedrannus neu sy'n anabl fod yn gymwys ar gyfer y Cynllun Person Hylaw, lle gall rhai mathau o waith gael eu cyflawni am ffî. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'ch Swyddfa Dai lleol.

Ym mhob achos arall bydd rhaid i'r tenant sicrhau bod yr atgyweiriadau yn cael eu gwneud eu hunain.

Mae'r dull yma yn helpu i wahaniaethu rhwng yr atgyweiriadau mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt, y rhai sydd rhaid i'r tenant ad-dalu a'r rhai mae'r tenant yn gyfrifol amdanynt.

CYNLLUN PERSON HYLAW

Ydych chi'n denant cyngor sydd yn 60 oed neu'n hŷn, neu oes gennych anabledd?

A oes gennych chi fân dasgau i'w gwneud ond na allwch eu gwneud eich hun?

Yna gall y Cynllun Person Hylaw eich helpu.

Mae ein Cynllun Person Hylaw yn werth ardderchog am arian ac yn cael ei gynnal gan aelod o dîm cynnal a chadw y cyngor gyda'u hoffer eu hunain.

Er bod y cyngor yn gyfrifol am gynnal strwythur eich cartref a gwneud atgyweiriadau, rydym yn deall y bydd mân dasgau i'w gwneud sydd yn gyfrifoldeb i chi, a dyma lle gall y cynllun person hylaw fod o gymorth.

Ar gyfer pwy mae'r cynllun?

I fod yn gymwys, rhaid i chi fod yn denant cyngor sydd yn 60 oed neu'n hŷn, neu ag anabledd ac mae angen cymorth ychwanegol arnoch gyda thasgau yn eich cartref i'ch helpu i barhau i fyw yn ddiogel ac yn annibynnol.

Pa fath o waith gall gael ei wneud?

Tasgau tebygol person hylaw yw mân dasgau megis:

- Trimio drysau mewnol (Yn dilyn gosodiad carpedi)
- Gosod a thrimio gorchuddion lloriau
- Ffitio traciau neu polion llenni
- Rhoi llenni i fyny
- Glanhau ffenestri
- Gosod silffoedd
- Newid bylbiau e.e. tiwbiau fflworoleuol
- Rhoi lluniau a drychau i fyny
- Ffitio cloeon a bolltau drws i siediau
- Ffitio atodion ystafelloedd ymolchi
- Cydosod dodrefn fflatpac
- Clirio rhwystrau

A oes unrhyw dasgau nad oes modd eu cyflawni gan y gwasanaeth hwn?

Ni fydd y cynllun yn gwneud unrhyw waith a fyddai'n ffurfio rhan o'n gwasanaeth cynnal a chadw arferol a ddarperir gan y cyngor. Dylid riportio gweithfeydd fel hyn i'n Tîm Atgyweiriadau Canolog gan fod y costau wedi'i gynnwys yn eich rhent.

Faint mae'n ei gostio?

Mae'r rhaid talu pris gosod cyn y gall y gweithfeydd ddechrau sef £20 yr awr a T.A.W. Bydd y tâl yn cael ei adolygu'n flynyddol. Gallwch wneud taliad ag arian parod yn unig drwy fynd i unrhyw un o Swyddfeydd Arian Parod y Cyngor, Swyddfa Cwsmer yn Cyntaf neu gwneud taliad cerdyn debyd/credyd dros y ffôn.

Gall llawer gael ei gyflawni mewn 1 awr, felly fe allech gael nifer o waith wedi'i gwneud o fewn un apwyntiad ar yr amod nid yw'n cymryd mwy nag awr, e.e. rhoi 2 rheilen/polyn llenni i fyny, neu gosod yr holl atodion ystafelloedd ymolchi megis cabinet, daliwr papur tŷ bach, drych a rheilen tywelion.

Ac eithrio hoelion, sgriwiau a mastig (sydd am ddim), bydd angen i chi brynu'r holl ddeunyddiau eraill ymlaen llaw yn barod ar gyfer y person hylaw pan fyddant yn cyrraedd. Os na fydd y deunyddiau ar gael ni allent ddechrau'r gwaith, ond efallai bydd dal rhaid i chi dalu.

Pan fydd y gwaith wedi'i orffen bydd yr holl sbwriel a deunydd pecynnu yn cael ei symud a'i waredu fel rhan o'r gost.

Bydd y Person Hylaw wedi derbyn hyfforddiant priodol ac wedi'i gyflogi/chyflogi yn uniongyrchol gan y Cyngor, felly gallwch osgoi cael galwyr ffug yn gwneud y gwaith neu ddod yn ddioddefwr/waig sgam masnachu.

Oriau gwaith

Mae'r gwasanaeth hwn ond ar gael yn ystod oriau gwaith arferol ond **nid** yw ar gael tu allan i oriau neu fel rhan o'n gwasanaeth brys.

Oriau gwaith arferol yw:

8.00 am i 4.00 pm Dydd Llun i Ddydd Iau ac
8.00 am i 3.30 pm Dydd Gwener

Pan fyddwch yn galw i ofyn am y gwasanaeth hwn byddwn yn cynnig yr apwyntiad nesaf sydd ar gael ond ni allwn warantu y bydd hwn ar yr un diwrnod.